ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

7fed o Ragfyr

Annwyl Riant/Gwarcheidwaid,

Wrth i ni agosáu at wyliau'r Nadolig, hoffwn dynnu eich sylw at ein cynlluniau i gefnogi ein cymuned leol yn ystod cyfnod yma'r flwyddyn.

Yn gyntaf, diolch yn fawr i bawb am eu cyfraniadau i'r diwrnod Plant Mewn Angen, lle codwyd £750 i'r achos arbennig yma.

Dydd Gwener yma (10fed o Ragfyr), mae'n ddiwrnod gwisgo Siwmper Nadolig, a byddwn yn dathlu'r diwrnod yma drwy ganiatáu ein disgyblion i wisgo eu siwmperi Nadolig (a gwisg anffurfiol) i'r ysgol. Gofynnwn yn garedig am gyfraniad o 50c (os oes brawd/chwaer yn yr ysgol) neu £1 (os yn unig blentyn yn yr ysgol) er mwyn i ni fel ysgol gefnogi apêl banciau bwyd Canolfan Plant Cyngor Sir Abertawe.

Yn ogystal â'r uchod, hoffwn gynnig cymorth i unrhyw deulu(oedd) sy'n wynebu heriau ychwanegol wrth baratoi at yr ŵyl. Wrth i ni barhau i weld sgil effaith y pandemig ar ein cymuned, rydym yn barod i gynnig pecynnau bwyd neu dalebau ar gyfer siopau lleol er mwyn cynorthwyo teuluoedd sy'n byw effeithiau'r cyd-destun presennol. Os ydy hyn yn berthnasol i chi, plîs peidiwch ag oedi cyn cysylltu drwy'r rhif ffôn neu e-bost isod, neu drwy'r ffurflen hon: https://bit.ly/3DwPeb8

Bydd llythyr arall yn eich cyrraedd erbyn diwedd y tymor, ond yn y cyfamser, cofiwch gysylltu gyda'r ysgol os ydych am drafod yr uchod, neu am ragor o wybodaeth.

Yn ddiffuant,

Simon Davies

Mr Simon Davies
Pennaeth

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Microsoft Schools
Ysgol sy'n parchu hawliau UNICEF
Ysgol Rygbi Wales School of Rugby
Buddsoddwyr Mewn Pobl Aur
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales